

CYNGOR BRO MACHNO

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Iau, 14eg o Dachwedd 2019 yn Festri Salem am 7.00

Presennol: Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Eifion Davies, Dewi Jones, Colin Jones, Claire Roberts, Eryl Owain, Luned McFadden, Geraint Thomas, y Cynghorydd Sir, Wyn Ellis Jones a'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Siân Anwyl Jones.

Cyfoeth Naturiol Cymru: Estynnodd y Cadeirydd groeso i Dylan Williams o Gyfoeth Naturiol Cymru i gael diweddariad ar sefyllfa loriau'n cario coed dros y bont ger y Felin Wlân. Eglurodd nad oes symud ymlaen o ran cael pont newydd i groesi afon Machno am amryw o resymau, gan gynnwys diffyg sicrwydd a fyddai'r Ymddiriedolaeth yn rhyddhau tir. Y bwriad yw i tua 60% o'r loriau ddefnyddio'r bont dros afon Lledr ger Llawr Ynys ac y byddai ffordd newydd yn cael ei llunio oddi mewn i dir y goedwig i hwyluso'r trefniant yma. Byddai felly ostyngiad sylweddol yn nifer y loriau fydd yn defnyddio'r bont ger y Felin Wlân. Addawodd Dylan Williams gadw mewn cysylltiad efo trigolion y tai cyfagos ac y byddai'n sicrhau fod y rheolau ynglŷn ag amseroedd y caniateir i loriau fynd a dod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Diolchwyd iddo am ddod i'r cyfarfod.

Cofnodion: Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 9fed o Fedi 2019 fel rhai cywir, Luned McFadden yn cynnig ac Eifion Davies yn eilio.

Materion yn codi:

Materion ffyrdd: Roedd y clerc wedi cyfarfod swyddog o'r Cyngor Sir ac wedi cael gwybod y bydd gwaith atgyweirio ffordd Glasgwm yn digwydd yn fuan. Addawodd roi sylw i'r materion eraill a godwyd pan fyddai adnoddau'n caniatáu. Yn ychwanegol, penderfynwyd tynnu sylw at y dŵr sy'n cronni o dan Park Hill a'r angen i glirion ffosydd.

Rali RAC Cymru: Trafodwyd nifer o faterion yn dilyn cynnal y Rali a lluniwyd rhestr o faterion i'w trafod efo'r trefnwyr os bydd y Rali'n dychwelyd i'r ardal.

Giât ar waelod llwybr y Waen: Cynigiodd Geraint Thomas ail-osod y giât.

Ffordd Hafod-y-rhedwydd: Nid yw'r gwaith trwsio wedi ei wneud; penderfynwyd atgoffa'r Cyngor Sir o gyflwr y ffordd.

Coed ym Mynwent Arwelfa: Cadarnhawyd fod y gwaith wedi ei gwblhau i safon derbyniol.

Swydd Clerc: Nid oes ceisiadau wedi eu derbyn felly penderfynwyd dal ati i hysbysebu ac i wneud ymholiadau

Materion Ariannol:

Cyflwynwyd diweddariad o'r sefyllfa ariannol. Awdurdodwyd talu £100 i Bwyllgor Cinio'r Henoed, £369 i John Burton am dorri'r llwybrau a £84 i'r Brodyr Roberts.

Materion eraill:

Toiledau: Mae'r cytundeb cyfreithiol i drosglwyddo'r toiledau i berhnogaeth y Cyngor Cymuned bron a'i gwblhau. Trafodwyd y trefniadau ar gyfer rheoli'r toiledau a lluniwyd cynllun ar gyfer glanhau. Penderfynwyd cysylltu â mudiadau lleol i ofyn iddynt a fyddai

ganddynt wirfoddolwyr i fod yn rhan o rota glanhau ac y byddai'r mudiad yn derbyn cyfraniad fel cydnabyddiaeth o hynny.

Newidiadau i drefniadau bysiau cyhoeddus: Derbyniwyd gwybodaeth fod Cyngor Sir Conwy'n bwriadu treialu cynllun newydd o ddarparu bysiau ar alwad yn unig. Penderfynwyd bod angen mwy o wybodaeth ac na fyddai gostyngiad yn safon y ddarpariaeth yn dderbyniol.